Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.


This document is available in Welsh as well as English.

Heddlu • Police DYFED-POWYS

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

# Templed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Ystyriwch y siart llif isod cyn dechrau eich asesiad. Rhaid i bob corff cyhoeddus roi 'sylw dyladwy' i'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.




| | |
|---|---|
| Enw'r polisi, y weithdrefn, neu'r maes busnes: | Praesept treth gyngor yr heddlu |
| Enw'r unigolyn sy'n cynnal yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb: | Cheryl Gayther; Gwen James |
| Rôl yr unigolyn sy'n cynnal yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb: | Cynghorwyr Polisi<br>Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) |

## 1. Diben

| | |
|---|---|
| 1.1 Beth yw amcanion y polisi, y weithdrefn, neu'r gweithgaredd a sut maent yn cyd-fynd ag amcanion ehangach y sefydliad? | Mae'r dreth gyngor yn ffi flynyddol y mae cynghorau lleol yn ei chodi am y gwasanaethau lleol y maent yn eu darparu. Y praesept yw cyfradd y dreth y mae cynghorau'n ei chodi ar ran Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gefnogi gwasanaethau plismona.<br><br>Un o gyfrifoldebau allweddol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yw gosod y praesept hwn bob blwyddyn. Wrth wneud hynny, ystyrir nifer o ffactorau gwahanol gan gynnwys gofynion adnoddau'r Prif Gwnstabl yn y |

| | |
|---|---|
| | dyfodol, lefel y cronfeydd arian wrth gefn, adborth gan drigolion Dyfed a Phowys, a chynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith yn y dyfodol.<br>Bydd hyn yn galluogi'r heddlu i barhau i ganolbwyntio ar gyflawni'r Cynllun Heddlu a Throseddu, mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodir yn Natganiad Rheoli'r heddlu, a pharhau i ddiogelu cymunedau Dyfed a Phowys. |
| 1.2 Beth yw'r cymhellion neu’r grymoedd sy’n sbarduno’r datblygiad polisi, y weithdrefn, neu'r gweithgaredd hwn? | Yn unol ag adran 40 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, mae'n ofynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu nodi'r penderfyniadau ynghylch gofynion cyllidebol, y dreth gyngor, a gofynion praesept.<br>Mae'r broses y mae'n rhaid ei dilyn wrth gyhoeddi praeseptau wedi'i nodi yn atodlen 5 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.<br><br>Mae'r cyfraniadau praesept yn sicrhau bod gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu y gallu i gyflawni'r blaenoriaethau sydd wedi’u cynnwys yn ei gynllun heddlu a throseddu. Sef:<br>Cefnogi dioddefwyr ac atal erledigaeth<br>Cefnogi cymunedau diogel trwy atal niwed<br>Cefnogi system gyfiawnder mwy effeithiol |

## 2. Asesiad

Er mwyn asesu'r effaith y mae'r polisi, y weithdrefn, neu'r gweithgaredd yn ei chael neu'n debygol o'i chael ar unigolyn, mae'n bwysig edrych ar yr holl ddata a gwybodaeth sydd ar gael i chi. Efallai y bydd angen cael rhagor o wybodaeth drwy ymgynghori, a dylid cynnwys hynny hefyd.

Rydych chi'n chwilio am ragfarn a all ddigwydd pan fo gwahaniaethau sylweddol rhwng grwpiau o unigolion yn y ffordd y mae'r polisi, y weithdrefn, neu'r gweithgaredd yn effeithio arnynt, mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig (oedran, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred).

Wrth gynnal yr asesiad hwn, awgrymir eich bod yn ystyried:

- **Data sy'n gysylltiedig â'r data amrywiaeth bersonol** sy'n berthnasol i'r polisi. E.e., os yw'r polisi'n ymwneud â darparu gwasanaethau, yna efallai y bydd angen i chi edrych ar ddata’r CYFRIFIAD, ac unrhyw ddata personol sy’n ymwneud ag amrywiaeth sydd gennym mewn perthynas ag unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny.
- **Data ynghylch cwynion cyflogaeth** – gall nodi materion y gallai fod angen mynd i’r afael â nhw drwy’r asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb e.e., bydd angen ymdrin â chwynion sy’n ymwneud â hygyrchedd ar gyfer unigolion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn yn y ddalfa, drwy’r asesiad o effaith ar gydraddoldeb wrth adolygu’r ddogfen weithdrefn ar gyfer dalfeydd.

- **Unrhyw ymchwil sydd ar gael mewn perthynas ag anghydraddoldeb sy'n ymwneud â'r mater polisi** – gall hyn gynnwys adroddiadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi, adroddiadau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac ati. E.e., mae sawl adroddiad sy'n tynnu sylw at anghydraddoldeb yn ymwneud â stopio a chwilio, a gellir ystyried amrywiaeth swyddogion heddlu wrth ddrafftio asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb perthnasol.
- **Ymgynghori â grwpiau amrywiol gan gynnwys ein hyrwyddwyr amrywiaeth, aelodau'r Grŵp Cynghori Annibynnol a rhwydweithiau cymorth staff** - byddai hyn yn cynnig her allanol i'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac yn sicrhau bod barn ein cymunedau amrywiol yn cael ei hystyried.
- **Unrhyw ddata arolygon sy'n bodoli eisoes sy'n ymwneud â'r mater hwn.**
- **Unrhyw unigolion/grwpiau eraill y credwch y gallent eich cynorthwyo** – gyda chysylltiad uniongyrchol â'r mater.

Mae detholiad o ddata a allai fod yn ddefnyddiol i chi ar gael ar dudalen fewnrwyd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Os oes angen cyngor arnoch ynghylch yr wybodaeth/data y mae angen i chi eu hystyried wrth gwblhau'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hwn, mae croeso i chi gysylltu â'r Rheolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth drwy Microsoft Teams.

| Rhestrwch unrhyw ddata/ymgynghoriad/ymchwil rydych chi wedi'u hystyried wrth gynnal yr asesiad hwn: |
|---|
| Gwneir y penderfyniad ynghylch lefel y praesept yn seiliedig ar y canlynol:<br><br>• Ymgynghoriad cyhoeddus - Barn y cyhoedd a gweithlu Heddlu Dyfed-Powys.<br>• Gofynion cyllidebol yr heddlu<br>• Gofynion cyllidebol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu<br>• Setliadau ariannu gan y llywodraeth ganolog<br>• Cynlluniau ariannol yn y dyfodol fel y manylir arnynt yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig<br>• Trafodaethau yng nghyfarfod y Panel Heddlu a Throseddu ar 24 Ionawr 2025 lle derbyniwyd y praesept arfaethedig<br><br>Mae cyllidebau'r ddau sefydliad yn darparu ar gyfer cyflawni'r amcanion yn eu cynlluniau cydraddoldeb strategol. |

**Rhowch fanylion am ganlyniad eich asesiad yn y graff isod:**

Mae angen i chi nodi unrhyw ganfyddiadau yma. A yw eich ymchwil wedi nodi unrhyw effaith negyddol neu anghymesur ar grwpiau penodol? A ydym wedi cael cwynion gan grwpiau penodol o unigolion mewn perthynas â'r polisi, y weithdrefn, neu'r gweithgaredd? A yw aelodau'r Grŵp Cynghori Annibynnol wedi mynegi unrhyw bryderon? Nodwch unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn y graff isod.

| **A allai'r polisi, y weithdrefn, neu'r gweithgaredd gael effaith anghymesur negyddol ar unigolion sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon?** | |
|---|---|
| 2.1 **Oedran** (plant, pobl ifanc (17 i 25 oed), pobl hŷn neu grwpiau, e.e., dros 55 oed) | Gallai<br>Ni fydd copi papur o'r hysbysiad praesept yn cael ei anfon at aelwydydd. Bydd hyn yn golygu lanlwytho dogfennaeth i blatfformau ar-lein.<br>Dileodd Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2013 y rhwymedigaeth gyfreithiol i gynnwys copi papur o lyfryn y dreth gyngor a thaflen yr heddlu gyda gofynion blynyddol y dreth gyngor. Y gofyniad presennol yw cyfeirio'r cyhoedd at y wefan lle gellir cael y llyfryn/taflen, a dim ond darparu copi caled os yw'r cwsmer yn gofyn amdano. |
| 2.2 **Anabledd** (amhariad corfforol, amhariad gwybyddol, amhariad ar y clyw/golwg, problemau iechyd meddwl neu anawsterau dysgu, y gellir eu gweld neu na ellir eu gweld) | Gallai<br>Mae sicrhau bod gan yr heddlu ddigon o gyllid i gadw unigolion yn ddiogel yn effeithio ar bobl o bob oed.<br>Fel arfer, telir y dreth gyngor gan unrhyw un 18 oed neu hŷn sy'n berchen ar gartref neu'n rhentu cartref.<br>Ystyriwyd yr effaith ariannol ar gymunedau lleol a'r effaith anghymesur negyddol bosibl ar bobl sy'n ennill cyflog is, unigolion wedi ymddeol, a myfyrwyr. |
| 2.3 **Ailbennu rhywedd** (Unigolion, yn aelodau o staff a'r cyhoedd, sy'n trawsnewid neu sydd wedi trawsnewid o'u rhyw biolegol adeg eu geni, sy'n anneuaidd, neu'n rhyweddhylifol) | Gallai<br>Ystyriwyd yr effaith ariannol ar unigolion â gwahaniaethau o ran eu hiechyd corfforol neu feddyliol a gofalwyr, yn enwedig lle gallai incwm is a/neu gostau byw uwch effeithio ar unigolion. |
| 2.4 **Priodas a phartneriaeth sifil** (gwahaniaethu ar sail cyflogaeth) | Heb ei nodi |
| 2.5 **Beichiogrwydd a mamolaeth** (cyfnod beichiogrwydd a'r amser yn absennol o'r gwaith cyn ac ar ôl yr enedigaeth, gan gynnwys mabwysiadu, maethu, a cholli baban) | Heb ei nodi<br>Mae bil llawn y dreth gyngor yn seiliedig ar o leiaf dau oedolyn yn byw mewn cartref.<br>Mae priod a phartneriaid yn gyfrifol ar y cyd am dalu'r bil. |

| | |
|---|---|
| 2.6 **Hil** (unigolion a ddiffinnir gan eu lliw, eu cenedligrwydd, gan gynnwys dinasyddiaeth, tarddiad ethnig neu genedlaethol) | Gallai<br>Ystyriwyd yr effaith ariannol ar unigolion ar absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth, absenoldeb rhiant a rennir, absenoldeb rhiant di-dâl, neu absenoldeb mabwysiadu, a allai fod ar gyflog is/heb dâl am gyfnod penodol o amser (yn enwedig pan nad ydynt o bosibl yn gymwys i gael disgownt neu esemptiad). |
| 2.7 **Crefydd neu gred** (unrhyw grefydd, gan gynnwys dim crefydd, unrhyw gred – gan gynnwys credoau crefyddol ac athronyddol, a dim credoau) | Heb ei nodi |
| 2.8 **Rhyw** (ystyriwch gwryw, benyw, rhyngryw – rhyw biolegol a bennwyd adeg geni) | Heb ei nodi |
| 2.9 **Cyfeiriadedd Rhywiol** (atyniad rhywiol neu ramantus unigolyn at unigolion eraill, neu ddiffyg atyniad o'r fath) | Heb ei nodi |

Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn mynnu: "Rhaid i awdurdod y mae'r adran hon yn berthnasol iddo, wrth wneud penderfyniadau strategol ynghylch sut byddant yn arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyladwy i ba mor briodol yw eu harfer mewn ffordd sydd wedi cael ei dylunio i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol."

| | |
|---|---|
| 2.10 **Cyflog** (cyflog is/uwch o fewn cymunedau, statws cyflogaeth, yn cael budd-daliadau, methu â gweithio) | Gallai<br>Ystyriwyd yr effaith ariannol ar gymunedau lleol a'r effaith anghymesur negyddol bosibl ar bobl sy'n ennill cyflog is, unigolion wedi ymddeol, a myfyrwyr. Dosbarthwyd arolwg ymgynghori i geisio barn trigolion ardal blismona Heddlu Dyfed-Powys ar y praesept – rhannwyd yr arolwg hwn â phartneriaid i sicrhau ei fod yn cyrraedd nifer ehangach.<br><br>Gallai peidio â chodi'r praesept gael effaith niweidiol ar unigolion sy'n byw mewn ardaloedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, sy'n fwy tebygol o brofi troseddu. |

| | |
|---|---|
| 2.11 **Addysg**<br>(dim addysg, cyflawniad addysgol isel, cyflawniad addysgol uchel) | Gallai<br>Ystyriwyd yr effaith ariannol ar fyfyrwyr/y rhai sydd mewn addysg amser llawn.<br>Dosbarthwyd arolwg ymgynghori i geisio barn trigolion ardal blismona Heddlu Dyfed-Powys ar y praesept – rhannwyd yr arolwg hwn â phartneriaid i sicrhau ei fod yn cyrraedd nifer ehangach.<br><br>Gallai peidio â chodi'r praesept gael effaith niweidiol ar unigolion sy'n byw mewn ardaloedd o anfantais addysgol, sy'n fwy tebygol o brofi troseddu. |

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae angen ystyried y canlynol hefyd mewn perthynas â'r Gymraeg:

| | |
|---|---|
| 2.12 Dangoswch sut rydych wedi ystyried y ffordd y byddai'r penderfyniad polisi yn cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau cadarnhaol cynyddol, ar y canlynol — (a) cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Mae'r hysbysiad praesept yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi'n ddwyieithog, gan sicrhau felly nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r praesept yn cael ei ddosbarthu/hysbysebu'n ddwyieithog. Mae ar gael ar dudalennau Cymraeg a Saesneg gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn cefnogi unrhyw ymholiadau a allai fod gan unigolion/aelodau o'r cyhoedd. |

| | |
|---|---|
| 2.13 Dangoswch sut rydych wedi ystyried y ffordd **NA** fyddai'r penderfyniad polisi yn cael effeithiau andwyol, neu sut y byddai yn cael llai o effeithiau andwyol, ar y canlynol — (a) cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Fel uchod |


**3. Cynllun gweithredu i leihau'r effaith a nodwyd**

Pan fo effaith negyddol neu anghymesur wedi'i nodi, yna mae angen i ni gymryd camau i leihau neu ddileu'r effaith hon drwy wneud newidiadau perthnasol i'r polisi, y weithdrefn, neu'r gweithgaredd.

Pan ystyrir y gellir cyfiawnhau'r polisi, y weithdrefn, neu'r gweithgaredd sy'n achosi'r effaith, yna rhaid esbonio'r rhesymau dros y casgliad hwn yn glir.

| | |
|---|---|
| **Effaith a nodwyd:** | Ar gyfer pob nodwedd:<br>Os nad yw aelwydydd yn cael copi papur o'r hysbysiad praesept bydd hyn yn effeithio ar drigolion nad oes ganddynt fynediad at blatfformau ar-lein. |
| **Camau gweithredu arfaethedig:**<br><br>Noder: Pan ystyrir bod yr effaith yn gyfiawn, yna dylid nodi'r rhesymau dros hyn yn glir. | Bydd copïau wedi'u printio o'r hysbysiad praesept ar gael ar gais. Bydd yr hysbysiad yn cael ei lanlwytho i'n gwefan yn ogystal ag i wefannau'r pedwar cyngor.<br>Mae pob cyngor hefyd wedi cytuno i ychwanegu brawddeg fer at eu hysbysiadau treth gyngor yn cyfeirio trigolion at hysbysiad praesept yr heddlu ar ein gwefan.<br>*Gweler manylion praesept yr heddlu, a osodwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn, yma:* *https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/cyllid/y-praesept-a-r-cynllun-ariannol-tymor-canolig/*<br><br>Mae amryw o gynlluniau a gostyngiadau ar gael i aelwydydd, ond mae'r rhain i gyd yn cael eu rheoli gan gynghorau lleol ac nid oes |

| | |
|---|---|
| | gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu unrhyw ddylanwad dros y rhain.<br>Yn ogystal â'r disgowntiau statudol a grybwyllir, mae gan gynghorau'r pŵer i roi disgowntiau yn ôl disgresiwn ac yn ôl amgylchiadau lleol. |
| **Effaith a nodwyd:** | Oedran:<br>Yr effaith ariannol ar gymunedau lleol a'r effaith anghymesur negyddol bosibl ar bobl sy'n ennill cyflog is, unigolion sydd wedi ymddeol, a myfyrwyr. |
| **Camau gweithredu arfaethedig:**<br><br>Noder: Pan ystyrir bod yr effaith yn gyfiawn, yna dylid nodi'r rhesymau dros hyn yn glir. | Gall unigolion wneud cais am ddisgownt neu ostyngiad yn y dreth gyngor os ydynt yn cael eu 'diystyru' (nid ydynt yn cael eu cyfrif) neu maent yn byw ar eu pen eu hunain. Mae manylion llawn wedi'u hamlinellu ar wefannau cynghorau lleol. |
| **Effaith a nodwyd:** | Anabledd:<br>Unigolion â gwahaniaethau o ran iechyd corfforol neu feddyliol a gofalwyr sy'n byw gyda nhw, yn enwedig pan allai incwm is a/neu gostau byw uwch effeithio ar unigolion. |
| **Camau gweithredu arfaethedig:**<br><br>Noder: Pan ystyrir bod yr effaith yn gyfiawn, yna dylid nodi'r rhesymau dros hyn yn glir. | I'r rhai sy'n gymwys, gall y cynllun lleihau band o ganlyniad i anabledd neu ddisgowntiau i unigolion ag amhariad meddyliol difrifol helpu i leihau costau. Mae disgowntiau ar gael ar y dreth gyngor i'r rhai sy'n byw gyda rhywun sydd ag amhariad meddyliol difrifol ac sy'n gymwys o dan y meini prawf a gyhoeddwyd gan y cyngor lleol perthnasol. |
| **Effaith a nodwyd:** | Beichiogrwydd a mamolaeth:<br>Unigolion ar absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth, absenoldeb rhiant a rennir, absenoldeb rhiant di-dâl, neu absenoldeb mabwysiadu, a allai fod ar gyflog is/heb dâl am gyfnod penodol o amser (yn enwedig pan nad ydynt o bosibl yn gymwys i gael disgownt neu esemptiad). |
| **Camau gweithredu arfaethedig:**<br><br>Noder: Pan ystyrir bod yr effaith yn gyfiawn, yna dylid nodi'r rhesymau dros hyn yn glir. | Pan all unigolion fod ar incwm isel, neu'n hawlio budd-daliadau/credyd cynhwysol gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, efallai y byddant yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gostyngiad o ran y dreth gyngor – a elwir hefyd yn gymorth y dreth gyngor. |
| **Dyddiad cwblhau:** | 10 Chwefror 2026 |
| **Dyddiad adolygu:** | Bob blwyddyn |

| **Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gymeradwyo gan:** |  |
| --- | --- |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | 9 Mawrth 2026 |

**copiwch a gludwch y tabl uchod gymaint o weithiau ag sydd angen, yn dibynnu ar nifer yr 'effeithiau' a nodwyd)

**A ellir cyhoeddi'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hwn?Gellir / ~~Na ellir~~**

**Cyflwynwch eich asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gwblhau gyda'ch polisi drafft i'r Swyddog Polisi i'w hadolygu. Mae polisïau'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth derfynol drwy strwythur lywodraethu'r heddlu ar gyfer eich maes busnes cyn eu cyhoeddi.**